**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

# CYFARFOD O'R PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 26 GORFFENNAF 2017 YN NHŶ HASTINGS (10:30 – 12:30)

**Aelodau CFfDLC yn Bresennol:** Ceri Stradling (Cadeirydd), David Powell (Aelod), Theo Joloza (Aelod), Julie James (Aelod Annibynnol)

**Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru yn Bresennol:** Mark Jones

**Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Bresennol:** Lisa James

**Swyddogion CFfDLC yn Bresennol:** Steve Halsall (Prif Weithredwr), Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr), David Carr (Rheolwr Cyllid)

## 1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ian Howse (Deloitte), Michele Hopton (Deloitte) a Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes).

## 2. Datganiadau o Fuddiant

2.1 Datganodd Julie James fuddiant posibl yn eitem 13 ar yr agenda. Nodwyd y datganiad gan y Pwyllgor, ond roedd o'r farn na fyddai'r amgylchiadau yn ymwneud â'r golled a amlinellwyd yn yr adroddiad yn golygu bod gwrthdaro buddiannau. Fodd bynnag, **cytunwyd** y byddai Mrs James yn tynnu allan o'r drafodaeth pe bai'r Pwyllgor yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2017.

3.1 Gofynnodd Mark Jones am i'r cyfeiriad at Swyddfa Archwilio Cymru ym mharagraff 4.3 gael ei newid i adlewyrchu mai ef ei hun, yn hytrach na Swyddfa Archwilio Cymru, oedd wedi holi ynghylch y gofynion datgelu ar gyfer yr Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol.

3.2 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2017 yn amodol ar y newid a gytunwyd yn 3.1 uchod.

## 4. Materion yn Codi o'r Cyfarfod Blaenorol.

4.1 Nododd y Pwyllgor fod y mwyafrif o'r eitemau a oedd yn codi o'r cyfarfod blaenorol wedi'u cwblhau erbyn hyn neu yn rhai i ddelio â nhw nes ymlaen ar yr agenda.

4.2 Roedd eitemau heb ymdrin â nhw o hyd mewn perthynas â chadarnhau'r trefniadau ar gyfer yr adolygiad allanol cyfnodol o'r archwilwyr allanol a ddisgwyliwyd gan Deloitte, a chanlyniad yr archwiliad mewnol o systemau TGCh Llywodraeth Cymru a ddisgwyliwyd gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru.

4.3 Adroddwyd nad oedd staff CFfDLC wedi mynychu seminar Cyfnewid Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru, 'Rheoli Risg yn Dda' / 'Well Managed Risk' oherwydd rhywfaint o ddryswch o ran cael manylion y digwyddiad, er y cafwyd copi o'r sleidiau a gyflwynwyd yn y digwyddiad. **Cytunwyd** y byddai copi o'r sleidiau yn cael eu hanfon at Julie James.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Gorffennaf 2017

4.4 **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn ystyried p'un a ddylai'r Prif Weithredwr neu'r Dirprwy Brif Weithredwr fynychu seminar Cyfnewid Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru, 'Cynnwys y Dinesydd' / 'Involving the Citizen' ym mis Medi 2017.
**Gweithredu**: Prif Weithredwr / Dirprwy Brif Weithredwr **Erbyn**: 31 Awst 2017

## 5. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 2017-18

5.1 Adroddwyd bod y Cynllun Gwaith wedi'i ddrafftio ar gyfer 2017-18 ond nad oedd dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd Tachwedd a Chwefror wedi'u cadarnhau eto. Nododd a **chytunodd** y Pwyllgor gynnwys y Cynllun Gwaith.

## 6. Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

6.1 Adroddwyd bod adolygiad blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor i'w gynnal, a chawsant eu hystyried. **Cytunwyd** y Cylch Gorchwyl gan y Pwyllgor yn amodol ar y newidiadau canlynol:

- Paragraff 4.3 newid '2 aelod' i '3 aelod o'r comisiwn'.
- Paragraff 4.3 ar ôl 'Cadeirydd' ychwanegu 'neu weithredu fel Dirprwy Gadeirydd'.
- Paragraff 8.1 trydydd pwynt bwled, newid 'Amlinelliad' i 'Cynllun'.
- Paragraff 8.1 degfed pwynt bwled, ar ôl 'Llythyr y Rheolwyr' ychwanegu 'neu unrhyw allbynnau eraill gan yr archwilwyr allanol'

**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 22 Tachwedd 2017

## 7. Cyfrifon Blynyddol 2016-17 ac Adroddiad yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol a Llythyr y Rheolwyr.

7.1 Adroddodd y Rheolwr Cyllid y prif bwyntiau nodedig yn y cyfrifon archwiliedig i'r Pwyllgor, gan gynnwys y prif feysydd incwm a gwariant ac amrywiannau ar wariant y flwyddyn flaenorol.

7.2 Adroddodd Mark Jones fod y cyfrifon wedi'u derbyn yn gynnar a'u bod o safon dda iawn, ac o ganlyniad aeth y gwaith archwilio rhagddo yn hwylus. Bwriad yr

Archwilydd Cyffredinol oedd cyhoeddi adroddiad archwilio diamod yn amodol ar nad oedd unrhyw ddigwyddiadau yn effeithio ar y cyfrifon ar ôl eu llofnodi.

7.3 Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y cyfrifon na materion arwyddocaol eraill yn codi o'r archwiliad. Fodd bynnag, roedd rhai camddatganiadau wedi'u cywiro yn y cyfrifon yn dilyn yr archwiliad, ac effeithiodd un ohonynt ar y datganiadau ariannol, gyda'r gweddill yn newidiadau i'r nodiadau i'r cyfrifon. Roedd y newid i'r datganiadau ariannol yn ganlyniad taliad hwyr Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru nad oedd modd ei gynnwys yn y ffigur ar gyfer cyfanswm cyllid, gan y'i derbyniwyd y tu allan i'r flwyddyn ariannol, ac felly nid oedd yn cydymffurfio â pholisi cyfrifyddu'r Comisiwn ar adrodd am gyllid a dderbyniwyd o fewn y flwyddyn.

7.4 Gwnaed y newidiadau i'r nodiadau i'r cyfrifon er mwyn gwella cywirdeb y nodyn ynglŷn â chost amcangyfrifedig prydlesi gweithredu yn y dyfodol, cynnwys mwy o wybodaeth am drafodion partïon cysylltiedig a chywiro rhai ffigurau yn yr adroddiad tâl.

7.5 Roedd tri argymhelliad wedi'u codi o ganlyniad i'r archwiliad, sef:

- Dylai'r Comisiwn adolygu (a chofnodi) ei effeithiolrwydd ei hun a sicrhau bod canlyniad yr adolygiad yn cael ei ddatgelu yn y Datganiad Llywodraethu 2017-18. Dylai'r Comisiwn sicrhau bod Datganiad Llywodraethu 2017-18 yn darparu naratif llawn gwybodaeth am yr uchafbwyntiau yn y flwyddyn, yn lle rhestri hir o ffeithiau anarfarnol ar ffurf pwyntiau bwled;
- Dylai'r Comisiwn gyfalafu'r holl asedau a brynwyd y mae'n berchen arnynt ac sydd uwchlaw ei drothwy cyfalafu datganedig, sef £500. Wrth wneud hynny, dylai'r Comisiwn wirio perchenogaeth i'r brif ddogfennaeth berthnasol; a
- Dylai'r Comisiwn sicrhau bod ei gontract newydd (neu gytundeb lefel gwasanaeth) ar gyfer gwasanaethau TG yn cynnwys rheolaethau cadarn ar gyfer storio ei ddata a gwneud copïau wrth gefn ohono, a'r gweithrediadau TG o ddydd i ddydd yn y meysydd hyn.

7.6 Nododd y Pwyllgor yr argymhellion hyn ac ymatebion y rheolwyr yn eu derbyn ac yn dyrannu dyddiadau gweithredu iddynt.

7.7 Diolchodd y Cadeirydd i Mr Jones am ei adroddiad. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylai'r cyfrifon archwiliedig gael eu mabwysiadu a'u llofnodi.

## 8. Cynllun Archwilio Mewnol a Chylch Gorchwyl 2017-18

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Archwilio Mewnol Deloitte ar gyfer 2017-18 ymlaen, ynghyd â'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr archwiliadau mewnol canol blwyddyn a diwedd blwyddyn. Byddai'r gwaith archwilio mewnol a gynlluniwyd ar gyfer 2017-18 yn cwmpasu Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Risg, Adnoddau Dynol, Teithio a Chynhaliaeth a Threuliau, Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil a dilyniant ar argymhellion y flwyddyn flaenorol.

8.2 Nodwyd bod y Cynllun Archwilio yn dal i gyfeirio at ddeddfwriaeth ad-drefnu llywodraeth leol yn cael ei rhoi ar waith. **Cytunwyd** y dylid dileu hon gan nad oedd bellach yn cael ei deddfu.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid / Deloitte **Erbyn**: 22 Tachwedd 2017

8.3 Nodwyd yn y Cylch Gwaith nad oedd yr archwiliad o Reoli Risg yn cwmpasu asesiad o effeithiolrwydd camau gweithredu lliniaru. **Cytunwyd** i ofyn i Deloitte ystyried cynnwys hyn fel rhan o'u harchwiliad o Reoli Risg.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid / Deloitte **Erbyn**: 22 Tachwedd 2017

8.4 **Cytunodd** y Pwyllgor y Cylch Gwaith ar gyfer gwaith archwilio mewnol 2017-18 yn amodol ar y newid a amlinellwyd ym mharagraff 8.3 uchod.

## 9. Asesiad Archwilio Mewnol Blynyddol CFfDLC 2016-17.

9.1 Adroddwyd bod Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi cwblhau'u hasesiad blynyddol o'r archwilwyr mewnol ar gyfer 2016-17. Nododd y Pwyllgor gasgliadau'r asesiad, sef bod annibyniaeth a pherfformiad yr Archwilwyr Mewnol o safon uchel ac wedi bodloni'r safonau'n ymwneud â sicrhau ansawdd.

## 10. Argymhellion Archwilio – Adroddiad Cynnydd.

10.1 Ystyriodd y Pwyllgor y cynnydd ar argymhellion yr archwilwyr mewnol a oedd heb eu cyflawni eto. Nodwyd bod yr argymhellion heb eu cyflawni ar gyfer 2012-13 a 2014-15 yn ymwneud ag arolygon y Comisiwn ac felly nid oedd modd cyflwyno tystiolaeth ohonynt fel argymhellion wedi'u gweithredu hyd nes bod cryn waith wedi'i wneud mewn perthynas ag arolygon. Fodd bynnag, roedd gwaith arolwg archwilwyr mewnol y Comisiwn i'w gyflawni yn ystod 2018-19 pan oedd disgwyl y byddai modd dangos bod yr argymhellion hyn wedi'u gweithredu'n llawn.

10.2 Adroddwyd bod cryn gynnydd wedi'i wneud ar yr argymhelliad arall ar gyfer 2014-15 a oedd heb ei gyflawni, sef yn ymwneud â'r ymarferiad dilysu i wirio data pensiynau staff, a bod canlyniadau'r ymarferiad wedi'u pasio i MyCSP i'w hystyried.

10.3 Roedd y ddau argymhelliad heb eu cyflawni ar gyfer 2015-16 yn ymwneud â chysylltu Cynllun Gweithredol CFfDLC a threfniadau adrodd staff â'r amcanion corfforaethol, wedi'u gweithredu erbyn hyn.

10.4 O'r pedwar argymhelliad heb eu cyflawni ar gyfer 2016-17, roedd tri wedi'u gweithredu erbyn hyn. Ystyriwyd y byddai angen i'r argymhelliad a oedd heb ei gyflawni yn ymwneud â chyfyngu mynediad i ffolderi TG sensitif gael ei ohirio hyd nes bod trefniadau TG newydd wedi'u sefydlu, gan nad oedd modd ei weithredu o dan y trefniadau presennol.

10.5 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar gynnydd ar weithredu'r argymhellion archwilio.

## 11. Safonau Archwilio Mewnol Gwasanaethau Cyhoeddus – Fersiwn Newydd

11.1 Nododd y Pwyllgor y Safonau Archwilio Mewnol Gwasanaethau Cyhoeddus newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar a’r newidiadau o’r fersiwn flaenorol. Ystyriwyd na fyddai’r newidiadau yn cael unrhyw effaith ar y ffordd yr oedd y gwaith archwilio mewnol yn cael ei gyflawni ar ran CFfDLC, ond y gallai fod angen i ymarferiad asesu archwilwyr mewnol blynyddol y Pwyllgor gael ei newid i ystyried y Diffiniad o Archwilio Mewnol a’r Cod Moeseg. **Cytunwyd** y dylid adolygu ymarferiad asesu archwilwyr mewnol y Pwyllgor yng ngolau’r Safonau Archwilio Mewnol Gwasanaethau Cyhoeddus newydd.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 22 Tachwedd 2017

## 12. Prawf ar y Cynllun Parhad Busnes 2017-18

12.1 Ystyriodd y Pwyllgor ganlyniad prawf Cynllun Parhad Busnes blynyddol CFfDLC. Nodwyd bod y prawf wedi dynodi fod y cynllun wedi’i ddiweddaru ac yn gyfredol, ac eithrio rhai mân ddiwygiadau. Roedd y canlyniad hwn yn dynodi y dylai CFfDLC barhau i weithredu’n effeithiol pe bai amharu tymor byr i dymor canolig yn digwydd yn deillio o ddiffyg mynediad i adeilad CFfDLC a system TG y swyddfa.

## 13. Atodlen Colledion 2016-17

13.1 Nododd y Pwyllgor y colledion ar gyfer 2016-17 a oedd yn fân golledion ac yn ymwneud yn rhannol â’r tâl post anghywir yn cael ei roi ar eitemau post wedi’u ffrancio. O ran y golled yn sgil tandaliad bach o'r cynllun Talu wrth Ennill, **cytunwyd** y dylai CFfDLC ofyn i’r cyfrifydd anfon ymlaen holl hysbysiadau o newidiadau cod CThEM at y Rheolwr Cyllid yn y dyfodol.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Awst 2017

## 14. Adroddiad Rheoli Risg

14.1 Rhoddwyd ystyriaeth i’r cofrestri a pholisi risg presennol. Adroddwyd am fanylion y newidiadau a wnaed i’r cofrestri risg Corfforaethol a Gweithredol ers y cyfarfod diwethaf o’r Pwyllgor, gan gynnwys risg Gorfforaethol newydd yn ymwneud â throsglwyddo’r brydles ar gyfer swyddfeydd CFfDLC yn Nhŷ Hastings o Weinidogion Cymru i CFfDLC.

14.2 Adroddwyd bod newidiadau pellach wedi’u gwneud i’r gofrestr Risg Gorfforaethol yng nghyfarfod mis Gorffennaf CFfDLC i adlewyrchu bod Cynigion Drafft wedi’u cyhoeddi erbyn hyn mewn perthynas â’r arolwg o’r Ffiniau tua’r Môr.

14.3 O ran Risg Weithredol OP18, holwyd p’un a ddylai’r diffyg yswiriant teithio i staff gael ei ystyried fel risg i CFfDLC, gan nad oedd unrhyw gynsail i adrannau fod yn atebol am staff yn dioddef anafiadau tra’u bod ar ddyletswydd allanol i ffwrdd o’r swyddfa, a dim sail ar gyfer unrhyw hawliadau felly. **Cytunwyd** y byddai’r risg hon yn cael ei hadolygu i wirio’i dilysrwydd, ac y dylai ystyriaeth gael ei rhoi i leihau cyfraddau risgiau cynhenid a gweddilliol i 3/2 a 3/1 ac ychwanegu unrhyw gamau lliniaru pellach yn nhermau eithriad rhag atebolrwydd a allai fod yn berthnasol.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Awst 2017

14.4 O ran Risg Weithredol OP19 yn ymwneud â'r bwriad i dynnu gyriannau personol staff ar y system TG, nododd y Pwyllgor y camau lliniaru a gymerwyd gan CFfDLC, ond roedd o'r farn y dylai mwy gael ei wneud ac y dylid dweud wrth Lywodraeth Cymru am bryder y Pwyllgor ynglŷn ag effaith y newid arfaethedig. **Cytunwyd** y byddai'r Dirprwy Brif Weithredwr yn anfon copïau o ohebiaeth gydag adran TGCh Llywodraeth Cymru ymlaen at Lisa James.
**Gweithredu**: Dirprwy Brif Weithredwr **Erbyn**: 31 Awst 2017

## 15. Adroddiad Monitro'r Gyllideb.

15.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion yr adroddiad ar y gyllideb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar 27 Mehefin 2017.

## 16. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau

16.1 Nododd y Pwyllgor na wnaed unrhyw ddatganiadau o roddion neu letygarwch ar gyfer 2017-18 hyd yma.

## 17. Cwynion

17.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar y gŵyn a wnaed i CFfDLC gan Gyngor Sir Gwynedd, a'r canlyniad a bodlonrwydd y Cyngor gydag ymateb CFfDLC.

## 18. Adroddiad a Pholisïau Chwythu'r Chwiban a Thwyll

18.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban na thwyll ers yr adroddiad diwethaf.

## 19. Adroddiad Diogelwch Data TG

19.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch data ers yr adroddiad diwethaf.

## 20. Unrhyw Fusnes Arall

20.1 Adroddodd Lisa James y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad yn fuan ar eu papur gwyn ar newidiadau i Safonau'r Gymraeg, ac y gallai'r Comisiwn ddymuno cyfranogi yn y broses ymgynghori. **Cytunwyd** y byddai CFfDLC yn rhoi ystyriaeth i'r ymgynghoriad a chyfranogi pe bai'n berthnasol.
**Gweithredu:** Rheolwr Cymorth Busnes **Erbyn:** 21 Tachwedd 2017

20.2 Holodd Mark Jones p'un a oedd CFfDLC wedi ymateb i ymgynghoriad diweddar Swyddfa Archwilio Cymru ar eu cynllun ffioedd. Cadarnhawyd bod CFfDLC wedi ymateb i'r ymgynghoriad. **Cytunwyd** y byddai copi o ymateb CFfDLC yn cael ei anfon ymlaen at Mark Jones.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Gorffennaf 2017

## 21. Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf

21.1 Trefnwyd y dyddiadau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf fel a ganlyn:

22 Tachwedd 2017
21 Chwefror 2018